**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18$^{fed}$ Mehefin 2007**

## CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

**Adroddiad gan Colin Hanks,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau)**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law gan y cyhoedd.

### Gwybodaeth

**2.** <u>Cwynion a ddaeth i law Ebrill 2006 – Mawrth 2007</u>
Nifer y cwynion a ddaeth i law, yr ymchwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub oedd:

| Natur y Cwynion a ddaeth i law | Eleni | Y Llynedd |
|---|---|---|
| Materion yn ymwneud â'r Gymraeg | 0 | 0 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 1 | 2 |
| Gyrru | 12 | 6 |
| Diogelwch Tân: Gorfodi'r Ddeddf | 1 | 1 |
| Diogelwch Cymunedol | 3 | 0 |
| Gweithgarwch yr Ochr Weithredol | 4 | 6 |
| Anfon Allan | 0 | 0 |
| Ymddygiad | 8 | 9 |
| Cyfanswm | **29** | **24** |

**Gwybodaeth** *(parhad)*

| Nifer y Cwynion a Brofwyd | Eleni | Y Llynedd |
|---|---|---|
| Materion yn ymwneud â'r Gymraeg | 0 | 0 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 0 | 0 |
| Gyrru | 3 | 4 |
| Diogelwch Tân: Gorfodi'r Ddeddf | 0 | 1 |
| Diogelwch Cymunedol | 2 | 0 |
| Gweithgarwch yr Ochr Weithredol | 0 | 2 |
| Anfon Allan | 0 | 0 |
| Ymddygiad | 1 | 3 |
| Cyfanswm | **6** | **10** |

## 3. Crynodeb o'r Cwynion a Brofwyd

<u>Gyrru</u>

| | |
|---|---|
| Cwyn ynghylch aelod o'r staff yn gyrru peiriant tân at leoliad gan achosi niwsans. | *Cynghorwyd yr aelod o'r staff i fod yn fwy ystyriol o ddisgwyliadau'r cyhoedd.* |
| Cwyn ynghylch safon gyrru aelod o'r staff wrth ymateb i orsaf. | *Gorchmynnwyd yr aelod o'r staff i gymryd camau er mwyn osgoi hynny rhag digwydd eto. Roedd yr achwynydd yn fodlon â'r hyn a wnaethpwyd, a derbyniodd ymddiheuriad.* |
| Cwyn ynghylch difrod i eiddo gan un o gerbydau'r gwasanaeth tân. | *Gorchmynnwyd yr aelod o'r staff i gymryd camau er mwyn osgoi hynny rhag digwydd eto. Ymddiheurwyd wrth yr achwynydd, ac roedd yn fodlon â'r camau a gymerwyd.* |

**Crynodeb o'r Cwynion a Brofwyd** *(parhad)*

**Aeth y peiriannau tân ar 14,582 o deithiau 'Golau Glas' wrth ymateb i ddigwyddiadau rhwng Ebrill 1af 2006 a Mawrth 31ain 2007.**

Diogelwch Cymunedol

| | |
|---|---|
| Cwyn ynghylch diffyg presenoldeb gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn digwyddiad a drefnwyd o flaen llaw. | *Rhoddwyd esboniad llawn ac ymddiheuriad i'r achwynydd. Cymerwyd camau i sicrhau na fyddai hynny'n digwydd eto.* |
| Cwyn ynghylch safon archwiliad diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd gan aelodau o'r staff. | *Cymerwyd camau i gywiro'r sefyllfa ac i sicrhau na fyddai hynny'n digwydd eto.* |

**Cynhaliwyd dros 13,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y cyfnod hwn.**

**Aeth staff GTAGC at 10,052 o ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol yn y cyfnod hwn.**

Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Cwyn ynghylch aflonyddu gan aelod o'r staff y tu allan i'r gwaith. | *Cynghorwyd yr aelod o'r staff ynghylch canlyniad gwneud hyn eto.* |

Hefyd, mae tair cwyn ynghylch ymddygiad troseddol posib dan ymchwiliad, lle mae dau aelod o'r staff wedi eu gwahardd o'r gwaith dros dro.

## 4. Llythyrau o Werthfawrogiad

Mae'n werth nodi i 100 o lythyrau, cardiau ac e-byst ddod i law, yn datgan gwerthfawrogiad o'r Gwasanaeth. Mae hyn yn cymharu â 62 a ddaeth i lawr y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwerthfawrogiad yn ymwneud ag ystod eang o weithgarwch y Gwasanaeth Tân ac Achub, ond gellir eu dosbarthu'n fras fel a ganlyn:

<u>Digwyddiadau'r Ochr Weithredol</u>
Daeth 21 gwerthfawrogiad i law am ymdrin â gwahanol ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol mewn adeiladau masnachol, cartrefi a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd.

<u>Mentrau ac Ymweliadau Diogelwch Tân Cymunedol</u>
Daeth 31 gwerthfawrogiad i lawr am amryw o weithgareddau. Yn eu plith, roedd sgyrsiau ac ymweliadau â mudiadau megis Clybiau Ffermwyr Ifanc, canghennau o Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc, ffeiriau a diwrnodiau agored, ymweliadau â safleoedd y gwasanaeth tân ac achub. Llongyfarchwyd y staff am ddarparu offer ymyrraeth diogelwch tân i amddiffyn unigolion sy'n agored i berygl. Cafwyd llythyrau o werthfawrogiad am weithgareddau megis diwrnodiau amgylcheddol; sioeau teithiol gwrthdrawiadau ar y ffyrdd ac ymweliadau ag ysbytai hefyd.

<u>Cydraddoldeb a Phrofiad Gwaith</u>

Derbyniwyd 8 neges o werthfawrogiad yn ymwneud â chefnogaeth i ddigwyddiadau cydraddoldeb ac am ddarparu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc.

<u>Ymweliadau ag Ysgolion</u>
Daeth 5 llythyr o werthfawrogiad i law ynghylch ymweliadau addysgol ag ysgolion megis Criw Craidd.

**Llythyrau o Werthfawrogiad** *(parhad)*

Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref
Daeth 20 o lythyrau o werthfawrogiad i law gan rai a dderbyniodd archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

Hyfforddiant
Daeth 4 llythyr o werthfawrogiad i law ynghylch hyfforddiant a ddarparwyd gan y Gwasanaeth.

Gweithio mewn Partneriaeth a Chodi Arian
Daeth 11 gwerthfawrogiad i law ynghylch cyfranogiad y Gwasanaeth mewn gweithio mewn partneriaeth.

**Argymhelliad**

**5.** Bod yr Aelodau'n nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a derbyniwyd.